

Nam ar y Clyw

1. Cyflwyniad

Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi gwybodaeth i bobl F/fyddar neu sy'n drwm eu clyw. Mae'n ganllaw i'r gwasanaethau sydd ar gael, a sut medrwyd wneud cais am help gan Wasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen a sefydliadau eraill. Mae hefyd yn esbonio mwy ynglŷn â chofrestru eich bod yn drwm eich clyw.

Nodyn ar yr eirfa: Efallai y gwelwch y term "byddar" wedi ei sillafu gyda neu heb "B" fawr. Defnyddir B fawr i wahaniaethu rhwng modelau meddygol a diwylliannol pobl â nam ar eu clyw. Mae Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain yn diffinio'r gwahaniaeth: "Byddar" (gyda B fawr) – rhywun â chysylltiad diwylliannol cryf â phobl Fyddar eraill, sydd ag iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn iaith gyntaf neu'n ddewis iaith iddynt.

2. Cofrestru

Mae gan Ofal Cymdeithasol a Thai Torfaen gofrestr o bobl sydd â nam ar eu clyw. Mae cofrestru fel person B/byddar yn gwbl wirfoddol. Os ydych yn dewis peidio â chofrestru, medrwyd dderbyn yr un gwasanaethau (os ydych yn gymwys).

Mae cofrestru yn ei gwneud yn symlach i chi wneud cais am wasanaethau a budd-daliadau penodol. Mae hefyd yn caniatáu cynnwys eich enw ar gofrestr sy'n ein helpu ni i gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol i chi a phobl eraill B/byddar neu drwm eu clyw.

3. Pa help sydd ar gael

Help, cymorth a gwybodaeth ar y canlynol:

- Budd-daliadau Lles
- Dulliau cyfathrebu
- Materion tai
- Gwasanaethau Addysg / Cyflogaeth
- Tocynnau Bws
- Teithio'n rhatach ar y trên a dulliau teithio eraill
- Cymorth personol os oes angen
- Gwybodaeth ar ddsbarthiadau iaith arwyddion
- Teleofal
- Asesiad Gofalwr
- Gwybodaeth ar Ddehonglwyr Iaith Arwyddion, Darllenwyr gwefusau a Byddar/Ddall

Mae rhai gwasanaethau ar gael os ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn unig.. Byddai gweithiwr proffesiynol gwaith cymdeithasol yn asesu eich anghenion. Os ydych yn gymwys i dderbyn gwasanaethau, medrwn gynnig *Taliadau Uniongyrchol* sy'n eich galluogi chi i drefnu eich gwasanaethau eich hun i ddiwallu'r anghenion a aseswyd. Gall hyn rhoi mwy o reolaeth i chi dros y gofal rydych yn ei dderbyn.

4. Gweithiwr Arbenigol Nam ar y Clyw

Mae gan Dorfaen weithiwr cymorth arbenigol sydd â chymwysterau iaith arwyddion. Gall eich helpu i gadw eich annibyniaeth a byw yn ddiogel yn eich cartref a'ch cymuned. Medrant eich cynghori ar agweddau ymarferol bywyd

bob dydd ac ar wasanaethau a all fod ar gael i chi. Efallai y byddwn yn awgrymu dulliau o wella eich sgiliau neu ddefnyddio dyfeisiau i ddelio â'r anawsterau rydych yn eu hwynebu oherwydd y nam ar eich clyw.

5. Cysylltiadau defnyddiol

Mae nifer o sefydliadau sy'n rhoi cyngor a chymorth ymarferol i bobl sy'n Fyddar neu sydd â nam ar eu clyw.

Llinell Wybodaeth Action on Hearing Loss
Ffôn: **0808 808 0123** Ffôn Testun: **0808 808 9000** SMS **0780 0000 360**

informationline@hearingloss.org.uk

Llinell Wybodaeth Action on Hearing Loss – Tinnitus: Ffôn **0808 808 6666** | Ffôn Testun **0808 808 9000** |

SMS **0780 0000 360**

tinnitushelp@hearingloss.org.uk

Siop Action on Hearing Loss: Ffôn **03330 144525** | Ffôn Testun **03330 144530**

solutions@hearingloss.org.uk

Gwefan: www.actiononhearingloss.org.uk

Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain Cymru
Cynrychioli'r Gymuned Iaith Arwyddion
BDA Wales
Swyddfeydd GAVO
Ty Derwen
Church Road
Casnewydd
NP19 7EJ

Ebost: bda@bda.org.uk

Ffôn: 0207 697 4140

SMS/FaceTime: 07795 410 724

ooVoo: bda.britdeafassoc

Skype: bda.britdeafassoc

Gwefan: www.bda.org.uk

6. Ein Siarter

Rydym eisiau cyflwyno gwasanaeth o ansawdd uchel i bawb. Dyma ein haddewid i chi:

- Caiff pawb ei drin yn gyfartal, a chydag urddas a pharch
- Byddwn yn eich hysbysu o'r dewisiadau sydd ar gael i chi bob cam o'r broses
- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth hawdd ei deall trwy gydol y broses, gan gynnwys gwybodaeth ar ein meini prawf cymhwyster a sut cymerwyd penderfyniadau
- Byddwn yn mabwysiadu agwedd hyblyg tuag at anghenion unigolion
- Byddwn yn ystyried ac yn ymateb i'ch anghenion tebygol yn y dyfodol ynghyd â'r anghenion sydd gennych nawr
- Byddwn yn sicrhau ei bod yn hawdd i chi gysylltu â ni a bod y prosesau yn hawdd eu deall
- Byddwn yn sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ceisiadau am addasiadau yn cael eu trin yn effeithiol
- Byddwn yn ymdrechu i gyflawni pethau erbyn unrhyw ddyddiad penodol ac yn gadael i chi wybod os na fedrwn wneud hynny
- Pan fyddwn yn ystyried eich anghenion o ran addasiadau i'ch cartref, byddwn hefyd yn ystyried unrhyw anghenion eraill sydd gennych.

7. Ein manylion cyswllt

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen:

Gofal Cwsmeriaid

Ffôn: 01495 762200

Minicom: 01633 873203

Ffôn testun 07980 682 807

Ebost:

socialcareCallTorfaen@torfaen.gov.uk

Ein Cyfeiriad:

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai

Torfaen

Y Ganolfan Ddinesig

Pont-y-pŵl

Torfaen

NP4 6YB

*Mae'r daflen wybodaeth hon ar gael mewn
ieithoedd a fformatau eraill ar gais.
Cysylltwch â ni i drefnu hyn.*